# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Glantwymyn

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy’n canolbwyntio ar greu amgylchedd cynhwysol, cartrefol a Chymreig yn Ysgol Glantwymyn. Mae’r ysgol yn meithrin cymuned deuluol lle mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel. Mae gan staff berthynas waith gadarn â'r disgyblion ac maent yn annog safonau uchel ac ymddygiad da yn effeithiol. Mae disgyblion yn dangos chwilfrydedd ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Trwy hyn, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae’r pennaeth yn hybu diwylliant o gydweithio parhaus ar draws y ffederasiwn yn llwyddiannus. Mae hyn yn ysgogi addysgu creadigol ac yn cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion drwy’r defnydd effeithiol o’r gymuned leol a chydweithio bwriadus â phartneriaethau allanol yn dda. Mae staff yn defnyddio’r celfyddydau i feithrin empathi a pharch tuag at amrywiaeth yn fedrus.

Mae disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd yn llwyddiannus, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, maent yn cyfathrebu’n hyderus ac aeddfed mewn ystod dda o gyd-destunau. Mae medrau darllen disgyblion yn cael eu datblygu’n effeithiol o’r cyfnod cynnar, gyda’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn darllen yn rhugl ac yn dangos cariad at ddarllen. Mae medrau ysgrifennu’r disgyblion yn datblygu’n gadarn. Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth yn cefnogi'r disgyblion i gyflawni mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu yn y Gymraeg a’r Saesneg.

Mae adborth llafar athrawon yn effeithiol wrth gefnogi’r disgyblion i ymestyn eu dysgu, ond nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithredu ar y sylwadau i wella eu gwaith. Mae disgyblion yn cymryd rhan weithgar yn y gymuned leol. Yn gyffredinol, nid yw staff yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar weithgareddau sy’n ymwneud â’u dysgu.

Yn gyffredinol, mae staff yn darparu gweithgareddau sy’n cefnogi annibyniaeth disgyblion yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus ac yn dangos medrau cydweithio da, ac yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain. Er hyn, mae gor-arwain gan staff ar brydiau yn cyfyngu ar annibyniaeth disgyblion.

Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o brosesau hunanwerthuso i adnabod cryfderau’r ffederasiwn yn ogystal â’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cynnig cefnogaeth effeithiol i arweinwyr a staff, gan adnabod yr ysgolion a’u cymunedau yn dda.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2025